

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## SWYDD-DDISGRIFIAD

<b>Adran</b>	Cymorth Busnes
<b>Swydd</b>	Rheolwr Rhaglen Trawsnewid
<b>Rhif y Swydd</b>	505724
<b>Gradd</b>	13
<b>Lleoliad</b>	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
<b>Yn gyfrifol i'r</b>	Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid
<b>Yn gyfrifol am</b>	Ddim yn berthnasol

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

### **PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Cyflawni rôl allweddol wrth gyflwyno rhaglen o welliannau i wasanaethau a llywodraethu i gefnogi gweithrediad yr holl argymhellion a amlinellwyd yn yr Adroddiad Adolygiad Diwylliant annibynnol diweddar y Gwasanaeth a'r gweithgaredd a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Comisiynwyr.

### **DYLETYDDEDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Arwain cydlynu'r cyfarfodydd strwythur llywodraethu i sicrhau bod cynlluniau a chymau gweithredu yn cael eu harolygu a'u craffu'n gadarn.
- Arwain ar gydlynu seilwaith a phrosesau llywodraethu'r Comisiynwyr a'r Gwasanaeth ar gyfer ffrydiau gwaith penodol sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Rheoli datblygu'r hyn y gellir ei gyflawni er mwyn llywio datblygiad cynllun ar gyfer y Gwasanaeth cyfan.
- Datblygu a chynnal holl ddogfennaeth y prosiect gan gynnwys achosion busnes, dogfennau cychwyn prosiect, cynlluniau prosiect, logiau risg a materion a hyrwyddo adroddiadau.
- Darparu esiampl dda o arfer gorau o ran defnyddio offer gan gynnwys mabwysiadu a lledaenu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newid trawsnewidiol.
- Sicrhau lefelau uchel o ymgysylltu a thrafodaethau ar draws y Gwasanaeth a rhanddeiliaid.
- Darparu capasiti ychwanegol i ffrydiau gwaith blaenoriaeth unigol yn ôl yr angen.

Dyddiad creu'r S-Dd: 19/03/2024

Awdur: D Mika

8. Cefnogi datblygiad adnabod ac olrhain buddion system gyfan.
9. Darparu cefnogaeth i alluogi ffrydiau gwaith galluogi, yn ôl yr angen.
10. Nodi rhyngddibyniaethau ac annog cydgysylltu gwaith lle bo'n briodol.
11. Cefnogi'r gweithgorau i ymgysylltu ar draws yr holl adrannau gwasanaeth gan ddarparu mewnbwn a gofynion arbenigol i ddylanwadu ar y ffactorau diwylliannol sy'n sail i'r prosiectau yn ogystal â'r camau ymarferol wrth gyflawni ei amcanion.
12. Hyrwyddo grymuso staff a rhanddeiliaid ar newid ymddygiad ac arloesi wrth ailgynllunio systemau a gweithdrefnau.

## **GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurool â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

**Yn anad dim, bydd ymgeiswyr yn drawsnewidiol yn eu hymagwedd ac yn dangos aliniad i Cod Moeseg Craidd CCPT.**